18FED O FEDI

# Ysgol Treganna

Cylchlythyr wythnosol



## Wythnos yma

Rydym wedi cael wythnos hyfryd arall yn yr ysgol, ac mae'n braf gweld y clybiau allgyrsiol wedi ailgychwyn yr wythnos hon.
Oherwydd y nosweithiau rhieni, ni fydd unrhyw glybiau allgyrsiol ar ôl ysgol yr wythnos nesaf. Bydd y clybiau yn ailgychwyn ar ddydd Llun, 28ain o Fedi.

**Llangrannog**

Pob hwyl i blant Blwyddyn 6 sy'n mynd i wersyll yr Urdd yn Llangrannog yr wythnos nesaf! Bydd y disgyblion yn mynd gyda holl ysgolion Cymraeg y clwstwr, a bydd yn gyfle gwych iddynt ddod i adnabod ffrindiau newydd, cymdeithasu a mwynhau.

Diolch yn fawr iawn i'r staff a fydd yn gofalu am y plant yn Llangrannog. Gobeithio y cewch chi amser gwych!

**Parcio'n ddiogel**

Gofynnwn yn garedig i rieni barcio'n ddiogel y tu allan i'r ysgol. Mae nifer o geir yn parcio'n anghyfreithlon ar y llinellau dwbl melyn, ac mae hyn yn gallu bod yn beryglus iawn i'n disgyblion a'n teuluoedd.

Gofynnwn hefyd i bawb barchu ein cymdogion a'r busnesau sydd gyferbyn â'r ysgol, a pheidio â pharcio yn y mannau parcio dynodedig ar gyfer busnesau lleol. Diolch yn fawr iawn am eich cydweithrediad.

## Calendr

**Nosweithiau Rhieni Derbyn i flwyddyn 5**
**21/22 o Fedi**

**Nosweithiau Rhieni Blwyddyn 6**
**6/7 o Hydref**




## Digwyddiadau'r GRhA 26-27

Dyma'r holl ddigwyddiadau cyffrous mae'r GRhA wedi trefnu ar gyfer cymuned Ysgol Treganna eleni. Cofiwch fod croeso mawr i bawb fod yn rhan o'r GRhA.

Diolch yn fawr iawn i bawb am eu gwaith caled ac am drefnu cymaint o ddigwyddiadau i godi arian.

Bydd yr arian yma yn cael ei ddefnyddio'n uniongyrchol i gefnogi addysg, lles a phrofiadau ein disgyblion.




## Croeso i Dreganna

Ar nos Iau'r 24ain o Fedi, rydym yn estyn croeso cynnes i rieni'r Feithrin a'r Derbyn (a'r plant!) i ymuno gyda ni yn y neuadd fawr. Bydd cyfle i gymdeithasu a dod i adnabod rhieni newydd. Bydd digon o goffi a the,a chastell sboncio i'r plant. Croeso mawr i bawb! Bydd y digwyddiad yn dechrau am 3.15 ac yn gorffen am 4.30. Diolch yn fawr i'r GRhA am drefnu.

## **Nosweithiau Rhieni Tymor yr Hydref**

Bydd nosweithiau rhieni ar gyfer disgyblion Derbyn i Flwyddyn 5 yn cael eu cynnal ar nos Lun a nos Fawrth, yr 21ain a'r 22ain o Fedi.

Bydd nosweithiau rhieni ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 ar nos Fawrth a nos Fercher y 6ed a'r 7ed o Hydref.

Bwriad y sesiynau hyn yw cynnig cyfle i chi gyfarfod ag athro neu athrawes eich plentyn, trafod sut mae eich plentyn wedi ymgartrefu yn y dosbarth newydd, ac i ofyn unrhyw gwestiynau neu rannu pryderon sydd gennych.

Edrychwn ymlaen at groesawu rhieni disgyblion y derbyn i flwyddyn 5, i'r ysgol yr wythnos hon.

## **Bore Agored Ysgol Treganna**

Ydy eich plentyn yn cychwyn yn yr ysgol ym mis Medi 2027? Dewch i ymweld ag ysgol Treganna!



**Patrwm Iaith yr Wythnos**

Sut wyt ti? / Sut ydych chi?
Iawn diolch / Da iawn diolch.

**Her**
Rydw i ar ben y byd heddiw.
Rydyn ni'n hapus fel y gog heddiw.
Rydw i wedi cael llond bol heddiw.

**Testun trafod yr wythnos**
Fy hoff gemau i chwarae yn y car yw…

**Cân yr wythnos**
Y Cledrau-Cerdda fi i'r Traeth

**Idiom/ Dihareb yr wythnos**
Rhaid cropian cyn cerdded.